


## Gwasanaethau a lleoedd a reoleiddir gan AGGCC, 31 Mawrth 2017

20 Mehefin 2017  
SDR 63/2017

### Canlyniadau allweddol

- Mae nifer y gwasanaethau a reoleiddir ar unrhyw adeg benodol wedi aros yn gymharol ddigyfnewid, er bod newidiadau o ran cofrestriadau yn digwydd drwy gydol y flwyddyn.
- Roedd 6,133 o wasanaethau ac iddynt 112,234 o leoedd wedi'u cofrestru gydag AGGCC ar 31 Mawrth, sef cyfanswm gostyngiad o 76 o wasanaethau a chynnydd 3.3 y cant o 3,535 o leoedd ers yr un chwarter yn y flwyddyn flaenorol (Siart 1, Tabl 1).
- Roedd 1,568 o wasanaethau oedolion ac iddynt 25,753 o leoedd, sef gostyngiad o 14 (0.9%) o wasanaethau a chynnydd o 111 (0.4%) o leoedd ers yr un chwarter yn y flwyddyn flaenorol (Tabl 2).
- Roedd 244 o wasanaethau plant ac iddynt 2,468 o leoedd, sef cynnydd o 3 (1.2%) o wasanaethau a 252(11.3%) o leoedd ers yr un chwarter yn y flwyddyn flaenorol (Tabl 3a, Tabl 3b).
- Roedd 4,321 o wasanaethau Gofal plant a Chwarae ac iddynt 84,013 o leoedd, sef gostyngiad o 65 (1.5%) o wasanaethau a chynnydd o 3,173 (3.9%) o leoedd ers yr un chwarter yn y flwyddyn flaenorol (Tabl 4).
- Cyfanswm o 499 o hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio (e.e. 258 ar agor a 241 wedi'u cau) a 3,956 o Bryderon wedi'u cofnodi gan AGGCC (Siart 2, Siart 3, Tabl 5).

### Siart 1: Gwasanaethau a lleoedd a reoleiddir gan AGGCC yng Nghymru ar 31 Mawrth 2017



### Am y datganiad hwn

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn gyfrifol am reoleiddio amrywiaeth o wasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer plant ac oedolion er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'r bobl sy'n eu defnyddio.

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno'r canlyniadau allweddol ar gyfer Cymru ar 31 Mawrth 2017 o ran niferoedd y gwasanaethau a'r lleoedd a reoleiddir gan AGGCC, gan gynnwys Gwasanaethau Oedolion, Gofal Plant a Chwarae, a Gwasanaethau Plant, ac mae'n cynnwys cymariaethau gyda chanlyniadau'r blynyddoedd diwethaf.

### Yn y datganiad hwn

Gwasanaethau a lleoedd	2
Gwasanaethau oedolion	2
Gwasanaethau plant	4
Gofal plant a Chwarae	5
Hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio a Phryderon	7
Rhestr o dermau	9
Gwybodaeth allweddol ar ansawdd	10

## Gwasanaethau a lleoedd a reoleiddir ac sy'n cael eu harolygu gan AGGCC

Gwasanaeth yw'r enw torfol ar gyfer sefydliad neu unigolion a reoleiddir gan AGGCC. Mae rhai gwasanaethau wedi'u cofrestru i ddarparu gofal i uchafswm o bobl – dyma nifer y lleoedd cofrestredig.

Ni chaiff lleoedd eu cofrestru mewn gofal cartref, asiantaethau nyrsys, cynlluniau lleoli oedolion a'r gwasanaethau hynny nad yw AGGCC yn eu cofrestru.

**Tabl 1: Cyfanswm y gwasanaethau a'r lleoedd a reoleiddir gan AGGCC**

	31 Mawrth 2014	31 Mawrth 2015	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2017	% Y newid o 2016
<b>Gwasanaethau Oedolion</b>					
Gwasanaethau	1,603	1,594	1,582	1,568	-0.9
Lleoedd	26,240	26,191	25,642	25,753	0.4
<b>Gwasanaethau Plant</b>					
Gwasanaethau	225	230	241	244	1.2
Lleoedd	2,176	2,178	2,217	2,468	11.3
<b>Gofal Plant a Chwarae</b>					
Gwasanaethau	4,446	4,439	4,386	4,321	-1.5
Lleoedd	76,590	77,581	80,840	84,013	3.9
<b>Cyfanswm</b>					
Gwasanaethau	6,274	6,263	6,209	6,133	-1.2
Lleoedd	105,006	105,950	108,699	112,234	3.3

*Ffynhonnell: System cefnogi busnes AGGCC*

Bu gostyngiad parhaol o 76 yng nghyfanswm nifer y gwasanaethau ers yr un chwarter y llynedd (Mawrth 2016) ynghyd â gostyngiad o 3.3 y cant yng nghyfanswm nifer y lleoedd. Ar y cyfan, ychydig o newid a fu dros y tair blynedd diwethaf yn nifer y gwasanaethau a reoleiddir gan AGGCC dros y pedair blynedd diwethaf, er bod rhywfaint o gynnydd arwyddocaol wedi bod yn nifer y lleoedd Gwasanaethau Plant, Gofal plant a Chwarae, a thrafodir y rhain mewn adrannau dilynol.

## Gwasanaethau oedolion

Mae AGGCC yn gyfrifol am gofrestru a rheoleiddio cartrefi preswyl a nyrsio ar gyfer oedolion o bob oed, ac yn rheoleiddio'r asiantaethau a'r sefydliadau sy'n darparu gofal a chymorth i bobl yn eu cartrefi eu hunain ac yn y gymuned drwy ofal cartref.

Caiff cynlluniau lleoli oedolion eu rhedeg yn lleol ac maen nhw'n galluogi hyd at ddau berson sydd ag anghenion gofal a chymorth i fyw fel rhan o deulu neu aelwyd?. Gall lleoliadau fod yn barhaol, dros dymor byr, neu'n gyfnodau o ofal seibiant.

Sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau nyrsio preifat yn y gymuned yw asiantaethau nyrsys, ac maen nhw hefyd yn cynorthwyo pobl â'u gofal personol.

**Tabl 2: Nifer y gwasanaethau Oedolion a lleoedd a reoleiddir gan AGGCC**

	31 Mawrth 2014	31 Mawrth 2015	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2017	% Y newid o 2016
<b>Lleoli Oedolion</b>					
Gwasanaethau	11	11	9	8	-11.1
Lleoedd <sup>(a)</sup>	.	.	.	.	.
<b>Gofal Preswyl i Oedolion</b>					
<b>Cartrefi Gofal (Oedolion Hŷn)</b>					
Gwasanaethau	675	670	653	642	-1.7
Lleoedd	22,816	22,713	22,092	22,217	0.6
<b>Cartrefi Gofal (Oedolion Iau)</b>					
Gwasanaethau	457	444	453	439	-3.1
Lleoedd	3,424	3,478	3,550	3,536	-0.4
<b>Gofal Cartref</b>					
Gwasanaethau	422	431	426	432	1.4
Lleoedd <sup>(a)</sup>	.	.	.	.	.
<b>Asiantaethau Nyrsys</b>					
Gwasanaethau	38	38	41	47	14.6
Lleoedd <sup>(a)</sup>	.	.	.	.	.
<b>Cyfanswm</b>					
Gwasanaethau	1,603	1,594	1,582	1,568	-0.9
Lleoedd	26,240	26,191	25,642	25,753	0.4

*Ffynhonnell: System cefnogi busnes AGGCC*

(a) Ni chaiff lleoedd eu cofrestru mewn gofal cartref, asiantaethau nyrsys, cynlluniau lleoli oedolion a'r gwasanaethau hynny nad yw AGGCC yn eu cofrestru.

Mae nifer y gwasanaethau Oedolion sydd wedi'u cofrestru gydag AGGCC yn dangos tuedd i ostwng dros y pedair blynedd diwethaf, gyda lleihad bach yn nifer y Lleoli Oedolion a Gwasanaethau Preswyl oedolion - yn benodol o ran Cartrefi Gofal ar gyfer Oedolion Iau.

O gymharu â blynyddoedd blaenorol, mae tueddiadau wedi gwrthdroi, gyda chynnydd yn nifer y lleoedd ar gyfer Cartrefi Gofal i Oedolion Hŷn, a chynnydd o 125 (0.6%) yn nifer y lleoedd cofrestredig o 31 Mawrth ymlaen.

Mae nifer yr Asiantaethau Nyrsys wedi parhau i gynyddu o 9 o wasanaethau (24%) rhwng 2015 a 2017.

Mae nifer yr Asiantaethau Gofal Cartref wedi cynyddu o 6 o wasanaethau ychwanegol (1.4%).

Digwyddodd y newidiadau hyn yn erbyn cefndir o boblogaeth a oedd yn mynd yn gynyddol hŷn (65 oed a hŷn) ynghyd â phwyslais cynyddol ar ddarparu gofal a chymorth i bobl yn eu cartrefi eu hunain ac yn y gymuned.

## Gwasanaethau plant

### Gwasanaethau plant a reoleiddir gan AGGCC

Mae'r rhain yn cynnwys ystod o wasanaethau, gan gynnwys cartrefi gofal traddodiadol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, lleoliadau arbenigol am hyd at 52 o wythnosau, a gwasanaethau seibiant ar gyfer plant ag amrywiaeth o anabledau. Mae AGGCC hefyd yn gyfrifol am arolygu trefniadau lles ar gyfer plant mewn ysgolion arbennig preswyl.

**Tabl 3a: Nifer y gwasanaethau Plant a lleoedd a reoleiddir gan AGGCC**

	31 Mawrth 2014	31 Mawrth 2015	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2017	% Y newid o 2016
<b>Preswyl Plant</b>					
Gwasanaethau	129	135	144	149	3.5
Lleoedd	595	597	637	670	5.2
<b>Ysgolion Arbennig Preswyl</b>					
Gwasanaethau	11	11	12	11	-8.3
Lleoedd	238	238	238	225	-5.5
<b>Cyfanswm</b>					
Gwasanaethau	140	146	156	160	2.6
Lleoedd	833	835	875	895	2.3

*Ffynhonnell: System cefnogi busnes AGGCC*

Mae cyfanswm nifer y gwasanaethau Plant a lleoedd a reoleiddir gan AGGCC wedi cynyddu gan fwy na 2 y cant dros y flwyddyn ddiwethaf.

Ers 2014 bu cynnydd parhaol yn nifer y gwasanaethau a lleoedd Preswyl i blant, gyda chynnydd o 3.5 y cant yn nifer y gwasanaethau a chynnydd o 5.2 y cant yn nifer y lleoedd cofrestredig o'u cymharu â'r chwarter blaenorol.

Mae nifer y gwasanaethau ar gyfer Ysgolion Arbennig Preswyl wedi aros yn ddigynnewid dros gyfnod o 4 blynedd, gyda chynnydd o 5.5 y cant yn nifer y lleoedd ers mis Mawrth 2016.

### Gwasanaethau Plant a arolygir gan AGGCC

Gwasanaethau a lleoedd sy'n cael eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Lleol ond yn cael eu harolygu gan AGGCC yw'r rhain.

Gall gofawyr maethu ofalu am blant yn eu cartrefi naill ai am gyfnodau byr neu yn y tymor hir. Mae AGGCC yn gyfrifol am arolygu asiantaethau ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn gallu diwallu anghenion plant a bod y plant yn cael eu hamddiffyn rhag niwed. Mae bron i hanner y gwasanaethau Maethu'n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol.

Mae AGGCC yn arolygu gwasanaethau mabwysiadu a ddarperir gan awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol, ond nid yw'n eu cofrestru. Maen nhw'n darparu gwasanaethau sy'n cynnwys recriwtio, asesu a chymeradwyo oedolion sydd am fabwysiadu plentyn, yn ogystal â chymorth ar gyfer darpar fabwysiadwyr a phlant, gan gynnwys brodyr a chwiorydd.

Mae AGGCC yn gyfrifol am arolygu trefniadau lles ar gyfer plant sy'n lletya mewn ysgolion preswyl a cholegau addysg bellach yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu'r ddarpariaeth addysg.

**Tabl 3b: Nifer y gwasanaethau Plant nad ydynt wedi'u cofrestru ond sy'n cael eu harolygu gan AGGCC**

	31 Mawrth 2014	31 Mawrth 2015	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2017	% Y newid o 2016
<b>Gwasanaethau Maethu</b>					
Gwasanaethau	50	48	49	47	-4.1
Lleoedd	.	.	.	.	.
<b>Gwasanaethau Mabwysiadu</b>					
Gwasanaethau	23	24	22	22	0.0
Lleoedd	.	.	.	.	.
<b>Ysgolion Preswyl</b>					
Gwasanaethau	9	10	11	11	0.0
Lleoedd	1,173	1,341	1,341	1,573	17.3
<b>Colegau Addysg Bellach</b>					
Gwasanaethau	3	2	3	4	33.3
Lleoedd	170	.	.	.	.
<b>Cyfanswm</b>					
Gwasanaethau	85	84	85	84	-1.2
Lleoedd	1,343	1,341	1,341	1,573	17.3

*Ffynhonnell: System cefnogi busnes AGGCC*

Mae cyfanswm nifer y gwasanaethau Plant sy'n cael eu harolygu gan AGGCC wedi aros yn gymharol sefydlog dros y pedair blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, bu cynnydd sylweddol o 232 (17.3%) yng nghyfanswm nifer y lleoedd ers mis Mawrth 2016.

Mae'r cynnydd hwn yn nifer y lleoedd yn ganlyniad i gynnydd yn nifer y lleoedd mewn Ysgolion Preswyl o 1,341 i 1,573 yn ystod 2016 i 2017.

Mae nifer y gwasanaethau Maethu yn dangos gostyngiad graddol o 3 (4.1%) o wasanaethau dros gyfnod o bedair blynedd.

## Gofal plant a Chwarae

O 1 Ebrill 2016 ymlaen, cafodd y cyfyngiad oedran ar gyfer cofrestru Gofal plant a Chwarae ei ymestyn o 8 i 12 mlwydd oed. Mae AGGCC yn cofrestru ac yn arolygu gofal dydd i blant o dan 12 blwydd oed, gan gynnwys gwarchodwyr plant, meithrinfeydd a chlybiau ar ôl ysgol, yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r Rheoliadau (2010).

**Tabl 4: Nifer y gwasanaethau a lleoedd Gofal plant a Chwarae a reoleiddir gan AGGCC**

	31 Mawrth 2014	31 Mawrth 2015	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2017	% Y newid o 2016
<b>Gwarchodwyr Plant</b>					
Gwasanaethau	2,456	2,437	2,416	2,340	-3.1
Lleoedd	12,739	12,720	15,552	16,531	6.3
<b>Gofal Dydd Llawn</b>					
Gwasanaethau	648	653	677	708	4.6
Lleoedd	27,023	27,505	28,622	29,732	3.9
<b>Gofal Dydd Sesiynol</b>					
Gwasanaethau	777	785	764	748	-2.1
Lleoedd	17,351	17,678	17,211	16,801	-2.4
<b>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol</b>					
Gwasanaethau	474	472	445	445	0.0
Lleoedd	16,747	16,808	16,518	16,660	0.9
<b>Meithrinfeydd</b>					
Gwasanaethau	33	33	28	28	0.0
Lleoedd	643	683	589	705	19.7
<b>Darpariaethau Chwarae Mynediad Agored</b>					
Gwasanaethau	58	59	56	52	-7.1
Lleoedd	2,087	2,187	2,348	3,584	52.6
<b>Cyfanswm</b>					
Gwasanaethau	4,446	4,439	4,386	4,321	-1.5
Lleoedd	76,590	77,581	80,840	84,013	3.9

*Ffynhonnell: System cefnogi busnes AGGCC*

O ganlyniad i'r cynnydd yn y cyfyngiad oedran ar gyfer Gofal Plant a Chwarae o 8 i 12 mlwydd oed, gellir gweld rhai o'r newidiadau mwyaf sylweddol dros y tair blynedd diwethaf yng nghynnydd nifer y lleoedd Gofal plant a Chwarae sydd ar gael bellach. Mae cyfanswm nifer y lleoedd ar gyfer Gofal plant a Chwarae wedi cynyddu 3,173 (3.9%) yn ystod 2016 i 2017.

Ers mis Mawrth 2016 mae nifer y Gwarchodwyr plant wedi cynyddu 76 (3.1%), gyda chynnydd o 979 (6.3%) yn nifer y lleoedd Gwarchodwr plant.

Mae gwasanaethau Gofal Dydd Llawn wedi parhau i gynyddu dros gyfnod o bedair blynedd, gyda nifer y gwasanaethau'n cynyddu o 60 (9%) a lleoedd yn cynyddu o 2,709 (10%) yn ystod 2014 i 2017.

Mae gwasanaethau Gofal Dydd Sesiynol a lleoedd wedi parhau i ostwng dros gyfnod o dair blynedd, ac ers mis Mawrth 2016, cafwyd gostyngiad o 2.1 y cant yn nifer y gwasanaethau a gostyngiad o 2.4 y cant yn nifer y lleoedd.

Mae gwasanaethau Gofal y tu allan i'r ysgol a Creche wedi aros yn gymharol ddigyfnewid dros gyfnod o bedair blynedd. Fodd bynnag, yn cyd-fynd â hynny, bu cynnydd o 142 (0.9%) o leoedd y tu allan i'r ysgol a chynnydd o 116 (19.7%) o leoedd Creche yn ystod 2016 i 2017.

Ers mis Mawrth 2016 mae Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored wedi gweld rhai o'r newidiadau mwyaf sylweddol o fewn y categori Gofal plant a Chwarae. Mae nifer y gwasanaethau wedi parhau

i ostwng ar raddfa o 7.1 y cant dros y flwyddyn ddiwethaf; fodd bynnag, mae nifer y lleoedd wedi cynyddu'n sylweddol o 1,236 (52.6%).

## Hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio a phryderon

Mae AGGCC yn cymryd camau gweithredu os nad yw gwasanaeth yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddiol neu amodau ei gofrestrriad. Mae hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio yn cofnodi tystiolaeth ynghylch pa reoliadau nad ydynt yn cael eu bodloni gan wasanaeth ac mae'n amlinellu amserlen glir ar gyfer gweithredu a gwella. Wedyn, mae cydymffurfiad yn cael ei wirio yn ystod rhaglen arolygu rheolaidd, os nad yw'r gwasanaeth llwyddo i wella, bydd camau gorfodi yn uwchgyfeirio'r gwasanaeth i fod yn wasanaeth sy'n peri pryder.

Un o nodau AGGCC yw tawelu meddwl y cyhoedd ynglŷn ag ansawdd y gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofrestrir yng Nghymru. Mae'r cyhoedd ac aelodau staff gwasanaethau cofrestredig yn cael eu hannog i fynegi Pryder i helpu i nodi gwasanaethau o ansawdd gwael, sydd yn eu tro'n helpu gwella safonau gofal drwy gymryd camau gorfodi (pan fo angen).

**Tabl 5: Nifer yr hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio a Pryderon a gofnodwyd gan AGGCC o 31 Mawrth 2017 ymlaen**

	Hysbysiadau o ddiffyg chydymffurfio (a)	Pryderon
<b>Gwasanaethau Oedolion</b>	<b>336</b>	<b>3,181</b>
Lleoli Oedolion	0	6
Gofal Preswyl i Oedolion	286	2,178
Gofal Cartref	50	980
Asiantaethau Nyrsys	0	17
<b>Gwasanaethau Plant</b>	<b>24</b>	<b>346</b>
Preswyl Plant	24	250
Ysgolion Arbennig Preswyl	0	5
Gwasanaethau Maethu	0	85
Gwasanaethau Mabwysiadu	0	3
Ysgolion Preswyl	0	2
Colegau Addysg Bellach	0	1
<b>Gofal Plant a Chwarae</b>	<b>139</b>	<b>429</b>
Gwarchodwyr Plant	55	125
Gofal Dydd Plant	84	304
<b>Cyfanswm</b>	<b>499</b>	<b>3,956</b>


*Ffynhonnell: System cefnogi busnes AGGCC*

(a) Nifer yr hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio yw cyfanswm yr hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio sydd ar agor ac wedi'u cau a gofnodwyd yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

Rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2017 gwnaeth AGGCC gofnodi 499 o hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio a 3,956 o Bryderon yn erbyn amrywiaeth o wahanol fathau o wasanaethau. Ceir rhagor o fanylion yn Siart 2 a Siart 3.


Ar hyn o bryd, nid oes amserlen i gymharu'r data hwn â'r blynyddoedd adrodd blaenorol, ond bydd tueddiadau'r dyfodol o ran nifer yr hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio a Phryderon yn cael eu crynhoi mewn cyhoeddiadau blynyddol y dyfodol.

### Siart 2: Hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio a gofnodwyd ar 31 Mawrth 2017



- Cafodd 499 hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio eu cofnodi ar gyfer y flwyddyn adrodd.
- Roedd dwy ran o dair (67%) o'r holl hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio wedi'u cofnodi ar gyfer Gwasanaethau Oedolion, gyda'r gyfran fwyaf yn benodol ar gyfer cartrefi gofal Preswyl i Oedolion.
- Roedd bron i 30 y cant o'r holl hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio wedi'u cofnodi ar gyfer Gofal plant a Chwarae.
- Roedd 5 y cant o'r holl hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio wedi'u cofnodi ar gyfer Gwasanaethau Plant - ac maent yn benodol ar gyfer cartrefi Preswyl Plant.

### Siart 3: Pryderon a gofnodwyd ar 31 Mawrth 2017



- Cafodd 3,956 o bryderon eu cofnodi ar gyfer y flwyddyn adrodd.
- Cafodd nifer sylweddol o bryderon (80%) eu cofnodi ar gyfer Gwasanaethau Oedolion, gyda'r gyfran fwyaf wedi'i chofnodi ar gyfer cartrefi gofal preswyl i Oedolion.
- Roedd 11 y cant o bryderon wedi'u cofnodi ar gyfer Gofal plant a chwarae.
- Roedd llai na 10 y cant o bryderon wedi'u cofnodi ar gyfer Gwasanaethau Plant, gyda'r gyfran uchaf yn benodol i gartrefi Gofal Preswyl Plant, a ddilynwyd gan Wasanaethau Maethu.



## Rhestr o dermau

<b>Lleoedd</b>	<p>Mae rhai gwasanaethau wedi'u cofrestru i ddarparu gofal i uchafswm o bobl – dyma nifer y lleoedd cofrestredig.</p> <p>Ni chaiff lleoedd eu cofrestru mewn gofal cartref, asiantaethau nyrsys, cynlluniau lleoli oedolion a'r gwasanaethau hynny nad yw AGGCC yn eu cofrestru (gweler "Cofrestru").</p>
<b>Darparwr</b>	<p>Sefydliad neu unigolyn sy'n darparu gofal cymdeithasol a reoleiddir neu wasanaeth blynyddoedd cynnar.</p>
<b>Cofrestriad</b>	<p>Mae angen i'r rhan fwyaf o wasanaethau sy'n darparu gofal i bobl gael eu cofrestru gydag AGGCC cyn iddynt gael gweithredu. Mae'n rhaid i'r rheiny sydd am redeg gwasanaethau gyflwyno cais cofrestru i AGGCC sy'n cynnwys cyfweiliadau ac ymweliadau gwirio â safleoedd. Dim ond gwasanaethau sy'n dangos eu bod yn addas i redeg a fydd yn cael cofrestru.</p> <p>Mae gwasanaethau gofal sydd angen cofrestru yn cynnwys:</p> <p>Cartrefi gofal oedolion hŷn ac iau, asiantaethau gofal cartref, cartrefi plant, asiantaethau mabwysiadu'r sector cyhoeddus ac annibynnol, asiantaethau mabwysiadu'r sector cyhoeddus a gwirfoddol, gofalywr plant a crèches.</p> <p>Nodwch nad yw asiantaethau maethu awdurdodau lleol, asiantaethau mabwysiadu awdurdodau lleol, ysgolion preswyl, ysgolion arbennig preswyl a cholegau addysg bellach wedi'u gofrestru gydag AGGCC ond fe'u rheoleiddir gan AGGCC (gweler 'Rheoliad').</p>
<b>Rheoliad</b>	<p>Mae rheoleiddio gwasanaethau gofal yn cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau gan AGGCC i wirio a yw gwasanaethau'n ddiogel ac i ysgogi gwella. Mae Rheoleiddio yn cynnwys: Cofrestru - penderfynu pwy all ddarparu gwasanaethau; Arolygu - arolygu gwasanaethau a chyhoeddi adroddiadau; a Gorfodi - cymryd camau gweithredu, gan gynnwys cyflwyno hysbysiadau o ddifffyg cydymffurfio, dileu cofrestriad gwasanaeth, a chynnal erlyniad troseddol. Nid yw AGGCC yn ymchwilio i gwynion ond mae'n mynd ar drywydd pryderon, fel arfer drwy gynnal arolwg o'r gwasanaeth.</p>
<b>Rheoliadau</b>	<p>Mae rheoliadau yn ofynion cyfreithiol er mwyn rhedeg gwasanaethau a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n cael eu gorfodi gan AGGCC ar ran Gweinidogion Cymru.</p>
<b>Gwasanaethau</b>	<p>Gwasanaeth yw'r enw torfol ar gyfer sefydliad neu unigolion a reoleiddir gan AGGCC.</p>
<b>Gofal plant a chwarae</b>	<p>Mae hyn yn cynnwys y gwasanaethau canlynol i blant o dan 12 mlwydd oed:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>Gofal Dydd Llawn</li><li>Gwarchodwyr plant</li><li>Gofal y tu allan i oriau ysgol</li><li>Gofal Dydd Sesiynol</li><li>Meithrinfeydd</li><li>Mynediad agored</li></ul>
<b>Gwasanaethau plant</b>	<p>Mae'r rhain yn cynnwys y gwasanaethau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>Cartrefi plant</li><li>Canolfannau preswyl i deuluoedd</li><li>Asiantaethau maethu'r sector cyhoeddus ac annibynnol</li><li>Asiantaethau mabwysiadu'r sector preifat a gwirfoddol</li><li>Ysgolion preswyl sy'n darparu llety i fyfyrwyr sy'n iau na 18 mlwydd oed</li><li>Ysgolion arbennig preswyl sy'n rhoi llety i fyfyrwyr sy'n iau na 18 mlwydd oed</li><li>Colegau addysg bellach sy'n darparu llety i fyfyrwyr sy'n iau na 18 mlwydd oed</li><li>Uned Ddiogel (wedi'i chynnwys yn y ffigyrau ar gyfer cartrefi plant oherwydd niferoedd bach)</li></ul>

**Gwasanaeth au oedolion** Mae'r rhain yn cynnwys y gwasanaethau canlynol:  
Cartrefi Gofal i Oedolion Hŷn (65 mlwydd oed neu'n hŷn)  
Cartrefi Gofal i Oedolion Iau (o dan 65 mlwydd oed)  
Cynlluniau lleoli oedolion  
Asiantaethau Gofal Cartref  
Asiantaethau Nyrsys

## Gwybodaeth allweddol ar ansawdd

### Cefndir

AGGCC yw'r rheoleiddwr ar gyfer gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, sy'n cynnwys yr holl ystod o warchodwyr plant a meithrinfeydd, i gartrefi i bobl hŷn, ac mae'n anelu at:

- Roi sicrwydd annibynnol ynghylch ansawdd ac argaeledd gofal cymdeithasol yng Nghymru
- Diogelu oedolion a phlant, gan sicrhau bod eu hawliau'n cael eu hamddiffyn;
- Gwella gofal drwy annog a hyrwyddo gwelliannau o ran diogelwch, ansawdd a argaeledd gwasanaethau gofal cymdeithasol
- Llywio polisi a safonau a chynnig cyngor proffesiynol annibynnol i'r bobl
- datblygu polisi, y sector gofal cymdeithasol a gofal y cyhoedd.

Mae AGGCC yn hybu gwelliannau i ofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol drwy:

- rheoleiddio
- arolygu ac adolygu
- rhoi cyngor proffesiynol i Weinidogion a gwneuthurwyr polisi.

### Ffynonellau ein hystadegau

Mae'r wybodaeth yn y datganiad hwn yn dod o system Cefnogaeth Busnes AGGCC sy'n cael ei defnyddio i gofrestru a rheoleiddio gwasanaethau gofal ledled Cymru. Nid yw'r wybodaeth ddim ond yn perthyn i wasanaethau a reoleiddir sy'n gyfredol i 31 Mawrth 2017. Mae AGGCC yn mynd drwy'r broses o adolygu'r broses a'r systemau rheoleiddiol.

### Perthnasedd

Rydym o'r farn mai'r defnyddwyr allweddol sy'n defnyddio gwybodaeth am wasanaethau a reoleiddir yng Nghymru (ar wahân i ddefnydd craidd AGGCC) yw:

- Gweinidogion Llywodraeth Cymru
- Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Aelodau'r Cynulliad ac Adran Ymchwil yr Aelodau yn y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Cymru
- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Awdurdodau unedol llywodraeth leol (aelodau etholedig a swyddogion)
- Myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion,
- Adrannau eraill o Lywodraeth Cymru
- Adrannau eraill o'r llywodraeth

- Dinasyddion unigol a chwmnïau preifat.

Ar wahân i ddefnydd craidd AGGCC o'r wybodaeth, defnyddir yr ystadegau hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Mae rhai enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys:

- Rhoi cyngor i Weinidogion
- Cymharu a meincnodi awdurdodau unedol
- Llywio dadlau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a thu hwnt
- Rhoi wybodaeth i gomisiynwyr gwasanaethau gofal.

## Cywirdeb

Mae'r ystadegau a gyflwynir yma wedi'u seilio ar y system weinyddol a ddefnyddir gan AGGCC. Mae'r data yn agored i arolygwyr, staff cefnogi busnes, ac aelodau AGGCC eraill i wneud newidiadau ac ychwanegiadau at gofnodion gwasanaeth. Er bod hyn yn sicrhau bod y data yn gyfredol, mae'n gallu arwain at anghywirdebau ac anghysondebau, o ganlyniad i'r amrywiaeth o bobl sydd â mynediad at y system. Felly, efallai na fydd eitemau data unigol yn gywir ar adeg yr adrodd. Mae AGGCC wedi dechrau ar y broses o adolygu'r system, gyda'r nod o wella ei chywirdeb.

Mae'r data a gedwir yn system AGGCC yn cael ei wirio yn ystod arolygiadau, y Datganiad Hunanasesu Gwasanaethau blynyddol, a thrwy ymgysylltu â'r awdurdod lleol. Y bwriad yw y bydd y data yn cael ei ddiweddarau a'i wirio'n fwy rheolaidd drwy wella gwasanaethau ar-lein. Mae angen i wasanaethau roi gwybod i AGGCC ynglŷn ag unrhyw newidiadau i'w gwasanaeth, ond ni fydd yr hysbysiadau hyn yn cael eu gwirio hyd yr adeg pan fydd yr arolygiad nesaf yn digwydd. Fodd bynnag, mae'r data yn cael ei wirio'n rheolaidd am gysondeb, ac mae adolygiadau a diweddariadau yn cael eu gwneud yn rheolaidd.

## Symbolau

Defnyddir y nodiadau canlynol yn y tablau hyn:

- . = nid yw'r eitem ddata yn berthnasol
- .. = nid yw'r eitem ddata ar gael
- = nid yw'r eitem ddata yn sero yn union, ond rhagwelir ei fod yn sero neu lai na hanner y digid olaf a ddangosir
- \* = nid yw'r eitem ddata yn datgelu neu'n ddigon cadarn i'w gyhoeddi

## Datgelu a rowndio

Rydym wedi rowndio'r wybodaeth ar y byrddau hyn neu'r byrddau ategol ar StatsCymru. Mae hyn oherwydd na ellir dod o hyd i ddim ond ychydig o'r wybodaeth hon hefyd ar Gyfeirlyfr o Wasanaethau Rheoledig AGGCC.

## Amseroldeb a phrydlondeb

Mae system Cymorth Busnes AGGCC yn cael ei diweddarau'n barhaus fel rhan o waith rheoleiddio'r arolygiaeth o ddydd i ddydd. Mae cyhoeddiadau yn ymwneud â chipluniau o'r system a gymerwyd

ar ddiwrnod olaf y flwyddyn ariannol (31 Mawrth). Felly mae gwybodaeth a gyhoeddir ar gael ar gyfer yr holl flwyddyn ariannol. Wedyn, mae'r datganiad yn cael ei greu a'i gyhoeddi cyn gynted â phosibl.

## Hygyrchedd ac Eglurder

Mae'r datganiad ystadegol yn cael ei gyhoeddi yn yr adran Datganiad Ystadegol Blynyddol o wefan AGGCC. Mae gwybodaeth fanylach yn cael ei chyhoeddi'n chwarterol i gyd-fynd gyda'r datganiad hwn ar ddull lledaenu ystadegau Llywodraeth Cymru, StatsCymru. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad pellach sy'n nodi'r math o wasanaeth a'r awdurdod lleol:

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue>

## Cymaroldeb a chydlyniad

Mae cofrestru, dadgofrestru, a newidiadau i gofrestru yn digwydd drwy gydol y flwyddyn, er yn gyffredinol mae nifer y gwasanaethau sydd wedi'u cofrestru ar unrhyw un adeg yn weddol gyson. Felly, mae'r ffigyrau sydd wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn yn debyg yn fras i'r rheiny o ddatganiadau blaenorol. Fodd bynnag, symudodd AGGCC o adroddiad chwarterol i un blynyddol yn 2015/16. Felly, efallai na fydd yn bosibl cymharu datganiadau blaenorol â'r datganiad hwn.

## Polisi adolygiadau

Gan fod data yn cael ei gasglu gan system weinyddol, ac yn rhoi darlun o weithgaredd a gofnodwyd ar ddyddiad penodol, ni fydd data yn cael ei adolygu bob chwarter. Mae'n bosibl na fydd y darlun hwn yn gywir oherwydd efallai na fydd modd ychwanegu data ar y system tan ddyddiad diweddarach (e.e. y chwarter nesaf) ac efallai y bydd y chwarter nesaf yn cynnwys ychydig o ddata o'r chwarter blaenorol a gafodd ei gofnodi'n 'hwyr'. Fodd bynnag, mae nifer yr achosion dan sylw yn debygol o fod yn fach.

## Cyhoeddiadau cysylltiedig

- Mae AGGCC yn cyhoeddi gwybodaeth ychwanegol ar weithgareddau mewn gwasanaethau a reoleiddir ar sail flynyddol yn Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd. Gellir dod o hyd i'r Adroddiad Blynyddol ar y ddolen ganlynol: <http://cssiw.org.uk/our-reports/annual-reports/?lang=cy>
- Mae rhestr o wasanaethau a reoleiddir a'u hadroddiadau arolygu diweddaraf ar gael yng Nghyfeirlyfr y Gwasanaethau Rheoledig: <http://cssiw.org.uk/our-reports/?lang=cy>

## Gwybodaeth bellach

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan AGGCC:

[www.aggcc.org.uk](http://www.aggcc.org.uk)

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi bod chwech o'r saith set o ystadegau a gyflwynir yma yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy'n dangos eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Nid yw Atgyfeiriadau GIG ar gyfer apwyntiadau cyntaf fel cleifion allanol yn cael eu cyfri'n Ystadegau Gwladol ar hyn o bryd.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ystadegau gwladol yn cyrraedd y safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth i'r cyhoedd.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os down i bryderu ynghylch p'un a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod y pryderon â'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir adennill y statws pan fo'r safonau'n cael eu hadfer.

## **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Cyfodol**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant ar gyfer Cymru. Mae'r rhain ar gyfer Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, gwydn, iach, a chyfrifol yn fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol, diwylliant egnïol, ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu rhoi ar waith er mwyn mesur cynnydd o ran cyflawni nodau Llesiant, a (b) cyflwyno copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Pennwyd y 46 dangosydd cenedlaethol ym mis Mawrth 2016.

Gwybodaeth am ddangosyddion a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig - [Sut ydych chi'n mesur cynnydd cenedl? - Dangosyddion cenedlaethol](#)

Gwybodaeth am ddangosyddion a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig – [Sut mae mesur cynnydd cenedl? – Dangosyddion Cenedlaethol](#).

Gallai'r ystadegau yn y cyhoeddiad hwn hefyd gynnig gwybodaeth ategol ar gyfer y dangosyddion cenedlaethol, a gellir ei defnyddio gan fyrddau'r gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

## **Manylion pellach**

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan [AGGCC](#).

Mae'r [Gwasanaethau a lleoedd a reoleiddir gan AGGCC 2016-17](#) ar gael.

## **Diweddariad Nesaf**

Cyhoeddiad blynyddol AGGCC o wasanaethau a lleoedd a reoleiddir - 31 Mawrth 2018

## Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd o'r ystadegau hyn, anfonwch e-bost at [CSSIWAnalysts@wales.gsi.gov.uk](mailto:CSSIWAnalysts@wales.gsi.gov.uk).

## Drwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan [Trwydded Agored y Llywodraeth v3.0](#), ac eithrio lle y mae'n nodi fel arall.

